| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD** | **19 MEDI 2011** |
| **TEITL** | **DIDDYMU PARTHAU HACNI ODDI FEWN I WYNEDD** |
| **PWRPAS** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, cyfrifoldeb y Cynghorau Dosbarth/Bwrdeistrefol oedd trwyddedu cerbydau hacni, yn rhoddi hawl i'r cerbydau weithio fel cerbydau hacni yn yr ardal honno'n unig. Nid oedd hawl cyfreithiol ar gerbyd hacni i weithio, fel hacni, y tu allan i'r awdurdod a oedd yn eu trwyddedu. Felly, roedd cerbyd oedd wedi ei drwyddedu fel hacni yn Arfon ond yn gallu gweithredu fel hacni yn Arfon; Meirion ym Meirion a Dwyfor yn Nwyfor.

1.2 Cyn 1996, roedd amodau Arfon yn wahanol i'r 2 gyngor arall, oherwydd i archwiliad ddangos nad oedd angen mwy o gerbydau hacni a cyfyngwyd y nifer o gerbydau hacni a ganiatawyd i 96. Nid oedd cyfyngiad ar y niferoedd yn y 2 gyngor arall.

1.3 Yn 1996, ar ddyfodiad Cyngor Gwynedd, penderfynwyd i gadw'r 3 ardal, neu parth, a cadw'r gwahanol amodau. Roedd cyfanswm ar y niferoedd o gerbydau a ganiateir yn Arfon ond nid yng ngweddill y Sir. I gyfiawnhau cadw'r amod penodol yn Arfon, roedd angen arolwg i sefydlu'r gofyn pob 3 blynedd.

1.4 Yn dilyn trafodaethau gyda'r diwydiant, penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu yn 2006 i wneud i ffwrdd gyda'r cyfyngiad niferoedd, ond gosod amodau newydd, yn Arfon yn unig. Buasai'r 96 perchennog, neu 98 erbyn hynny, (oherwydd i gerbyd ceffyl a char, ac un drwydded arall gael cymeradwyaeth pwyllgor) yn cael gwarchodaeth o ran yr amodau a.y.y.b. a buasai angen i unrhyw un arall a oedd angen trwydded o'r newydd orfod cael cerbyd llai na 3 oed ac oedd hefyd yn addas ar gyfer cludo cadair olwyn.

1.5 Credwn nawr ei bod yn amser i ni ystyried gwneud i ffwrdd gyda'r 3 parth yma fel bod pawb oddi fewn i Wynedd yn gweithio o dan yr un amodau. Mae Canllawiau Ymarfer Da, a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth o'r Llywodraeth yn 2010 yn annog Cynghorau i wneud i ffwrdd gydag unryw barthau, ar sail tegwch, cydymffurfiaeth ac i hwyluso gorfodaeth.

1.6 Mae'r byd wedi newid llawer ers i'r ddeddf mae'r diwydiant yma'n cael ei reoli fwyaf oddi tano, sef Deddf Cymalau Tref ac Heddlu 1847, ddod i rym, ac mae'r sefyllfa rydym yn ceisio gweithredu ynddi wedi newid yn gyson. Ar ddechrau yr adroddiad pwysleiswyd na all hacni weithio y tu allan i'w parth. Ond, oherwydd penderfyniad llys yn ddiweddar, gall cerbyd hacni, drwy weithredu fel cerbyd hurio preifat, weithio yn rhywle, oddifen neu y tu allan i'r sir. Canlyniad hyn yw ei bod bron yn amhosibl i wneud gwaith gorfodaeth oddifewn y sir o ran rhoeli cerbydau hacni a'r parthau.

1.7 Felly, gellir cael cerbyd hacni, wedi ei drwyddedu fel hacni yn Arfon, yn gweithio, yn hollol gyfreithiol, yn Nwyfor neu Meirionnydd, cyn belled a'i fod yn gweithio fel cerbyd hurio preifat ac yn cydfynd a gofynnion y rheolau sy'n berthnasol i hurio preifat o ran llogi'r cerbyd a cytuno ar y tâl ymlaen llaw.

1.8 Credwn nad yw'r trefniadau presenol y Cyngor yn gynaliadwy

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod yn ymgynghori gyda'r diwydiant a cyflwyno adroddiad cynhwysfawr i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor yma ar y ffordd ymlaen o ran cadw'r 3 parth a'i beidio.